***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 342

# Rheoliadau Deddf yr Economi Ddigidol 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru a Lloegr) 2018

**Y darpariaethau sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2017 i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn—

(a) adran 35 (datgelu gwybodaeth i wella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus), at ddibenion gwneud rheoliadau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath, yn unig;

(b) adran 38 (datgelu gwybodaeth i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth etc.), at ddibenion gwneud rheoliadau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth i ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu mewn perthynas â datgelu gwybodaeth gan ymgymerwr o'r fath, yn unig; ac

(c) adran 44 (rheoliadau), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r dibenion a bennir ym mharagraffau (a) a (b).